OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 444 (Cy.66)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy), Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *28 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.**Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy), Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 28 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 20 (Brompton Avenue) hyd at ganolbwynt Cyffordd 18, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19.